

12 Ionawr 2015

Annwyl Lia,

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd /Cardiff
CF24 0TP /CF24 0TP

Ebost/Email:
Ruth.Jenkins@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ruth.Jenkins@naturalresourceswales.gov.uk

Lia Moutselou
Cyngor Defnyddwyr Dŵr
Ystafell111
Tŷ Caradog
1-6 St Andrews Place
Caerdydd CF10 3BE

YMATEB CYFOETH NATURIOL CYMRU I YMGYNGHORIAD Y CYNGOR DEFNYDDWYR DŴR "RHOI DEFNYDDWYR WRTH WRAIDD Y DIWYDIANT DŴR"

Diolch ichi am y cyfle i ymateb i ymgynghoriad diweddaraf y Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Ym mhob rhan o'r ddogfen hon mae'n bositif gweld eich bod wedi cydnabod pa mor bwysig ac angenrheidiol yw cyflwyno canlyniadau amgylcheddol wedi eu cyfuno â'r angen i gadw biliau yn fforddiadwy. Fel prif reoleiddiwr amgylcheddol Cymru, mae CNC yn ymgymryd â nifer o ddyletswyddau i sicrhau bod dŵr yn cael ei reoli i gwrdd â'r anghenion ar gyfer yr amgylchedd, yr economi a phobl. Er gwaetha glawriad cymharol uchel yng Nghymru, gall y ddibyniaeth uchel ar gyflenwadau dwr arwyneb arwain at bwysau ar argaeledd dwr. Bydd newid hinsawdd yn cynyddu'r pa mor aml y bydd pwysau yn cael eu rhoi ar gyflenwadau, ac rydym yn rhoi cefnogaeth lawn i fesurau i leihau gollyngiadau ac i gynyddu defnyddio dŵr yn effeithiol.

Dyma rai sylwadau ar adrannau yn yr ymgynghoriad;


1. Tudalen 11. Nid oes yr un cyfeiriad at y gwahaniaeth o ran cystadleuaeth yng Nghymru a Lloegr a sut y mae'r gwaith yn cael ei brosesu yng Nghymru o ganlyniad i hynny. Byddai'n ddefnyddiol cael darlun cytbwys yn y ddogfen derfynol.
2. Tudalen 19: Er ein bod yn cytuno y dylai anfonebau fod yn 'dderbyniol ac yn fforddiadwy' i gwsmeriaid mae angen gwerthfawrogi hefyd fod fframiau amser a gofynion rheolaethol y bydd yn rhaid eu bodloni dros y blynyddoedd i ddod. Ceir goblygiadau dros beidio â chyflawni'r amcanion hyn, a bydd rhaid ystyried hyn wrth sicrhau bod biliau yn fforddiadwy ac yn dderbyniol. Bydd CNC yn parhau i weithio â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr i sicrhau fod defnyddwyr yn gwbl ymwybodol o ofynion rheolaethol tebygol a allai effeithio ar y sawl sy'n talu'r bil.
3. Tudalen 22: Rydym yn falch o weld ymdrech gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr i ddylanwadu ar gwmnïau gyda golwg ar dargedau sy'n gysylltiedig â pherfformiad

amgylcheddol, fodd bynnag credwn y dylai bod y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn rhoi pwysau ar gwmnïau i fod yn fwy dyfeisgar ac arloesol yn y ffordd y maent yn mynd i'r afael â'u defnydd o ddŵr. Enghraifft o hyn fyddai annog defnyddio tariffau a mesuryddion clyfar fel ffordd o ddarparu mwy o reolaeth a gwybodaeth i gwsmeriaid i ganiatáu iddynt wneud dewisiadau ar eu defnydd o ddŵr. Wrth inni symud ymlaen â'n blaenoriaethau gwaith rydym yn fodlon rhannu ein gwybodaeth a'n syniadau â chi fel y bo'n briodol.

4. Tudalen 24: Pwynt 4, rydym yn falch o weld cymorth gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ar gyfer draenio cynaliadwy. Bydd defnyddwyr yn gweld rhwydwaith mwy gwydn ond hefyd un sy'n helpu costau is ac sy'n darparu mwy o gynhwysedd ar gyfer dŵr i'r dyfodol, os defnyddir technegau draenio cynaliadwy.

Edrychwn ymlaen at weithio â chi wrth i'r flaen raglen gael ei rhoi ar waith yn ystod y pedair blynedd nesaf.

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in purple ink that reads "R. Jenkins". The signature is written in a cursive, flowing style.

Ruth Jenkins Rheolwr Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio